# CYDBWYLLGOR
# ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
# BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

**Cynhaliwyd: 25 Tachwedd 2016**

**Aelod / Swyddog Arweiniol: Howard Sutcliffe**

**Awdur yr Adroddiad: Helen Mrowiec, Uwch Swyddog Hamdden**

**Teitl: Eitem 5 Cynllun Busnes AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cynllun Busnes Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. (Atodiad 1)

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Cynllun Busnes AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cysylltu Camau Gweithredu Cynllun Rheoli'r AHNE ag adnoddau. Mae'r cynllun yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd, yn cysylltu â'r rhaglen waith i'r dyfodol ar gyfer yr AHNE a bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol. Mae'n nodi'r adnoddau presennol a'r bylchau presennol mewn adnoddau sydd agen ar gyfer cyflwyno'r cynllun rheoli yn llawn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cydbwyllgor yn craffu ar ac yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, dirprwyo'r gwaith o'i gyflwyno i'r Swyddog AHNE.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Gweler atodiad 1 sydd ynghlwm.

**5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?**

Mae Cynllun Busnes Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn cysylltu’n uniongyrchol â’r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Rheoli.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gost heblaw amser y swyddogion, mae angen ceisiadau am gyllid pellach ar rai o’r camau gweithredu cyn y gellir eu cyflawni.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Gweler Atodiad 2

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Mae gweithgor y Swyddogion AHNE wedi gwneud sylwadau ar strwythur drafft yr adroddiad. Mae'r Cynllun Busnes yn seiliedig ar y camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Rheoli a oedd yn cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol sy’n gysylltiedig â’r adroddiad hwn yn uniongyrchol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**

Dim

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r sail Gyfreithiol yn Adran 101 (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Deddf Llywodraeth Leol 2000, lle y gall awdurdodau Lleol wneud trefniadau i 'gyflawni swyddogaethau ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill drwy Gydbwyllgor'